

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – Taflen Wybodaeth

## Gwerthu Cartref Symudol a'i Roi'n Anrheg yng Nghymru

Hydref 2014





Ymdrin â hawliau a rhwymedigaethau perchenogion cartrefi symudol yng Nghymru.

Mae'n rhoi cyfarwyddyd sylfaenol i berchenogion cartrefi symudol sy'n defnyddio'u cartref fel eu prif breswylfa, ynglŷn â gwerthu cartref symudol neu ei roi'n anrheg yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn rhoi dehongliad awdurdodol o'r gyfraith, y llysoedd yn unig a all wneud hynny. Nid yw ychwaith yn cwmpasu pob achos. Os oes angen cyngor neu wybodaeth ychwanegol ynglŷn â hawliau neu rwymedigaethau cyfreithiol arnoch, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Cymru neu â chyfreithiwr.

## **Cyflwyniad**

Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ym mis Tachwedd 2013. Nod y gyfraith newydd hon yw diogelu hawliau perchnogion cartrefi symudol preswyl yng Nghymru'n well.

Mae un o'r newidiadau pwysicaf yn ymdrin â'r weithdrefn ar gyfer gwerthu cartref symudol neu ei roi'n anrheg. O 1 Hydref 2014 mae'r gyfraith yn newid i'w gwneud yn haws i berchnogion cartrefi symudol werthu eu cartref neu ei roi yn anrheg, heb ymyrraeth gan berchennog y safle, ac yn haws iddynt drosglwyddo ("aseinio") y cytundeb ysgrifenedig i'r perchennog newydd.

Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn yw egluro'r newidiadau i'r gyfraith a'r gweithdrefnau newydd y mae'n rhaid eu dilyn wrth werthu cartref symudol neu ei roi'n anrheg yng Nghymru.

## **1. Gwerthu eich cartref symudol**

### **A oes gennyf hawl i werthu fy nghartref symudol?**

Oes. Mae gan berchenogion cartrefi symudol hawl, yn ôl y gyfraith, i werthu eu cartrefi ar y farchnad agored ac i drosglwyddo eu cytundeb i'r sawl sy'n prynu eu cartref. Yr enw ar y broses o drosglwyddo'r cytundeb yw 'aseinio'. Cewch hefyd ei roi'n anrheg i aelod o'ch teulu ac aseinio'ch cytundeb iddo ef neu hi.

### **A oes rhaid imi roi cynnig cyntaf i brynu fy nghartref symudol i berchennog y safle?**

Nac oes. Nid yw'n ofynnol i chi roi cynnig cyntaf i berchennog y safle – hyd yn oed os yw eich cytundeb yn dweud fel arall. Caiff perchennog y safle wneud cynnig am eich cartref, fel unrhyw brynwr, a chewch ddewis gwerthu iddo ef neu hi ond nid oes rhaid ichi wneud hynny.

### **A oes rhaid imi ddweud wrth berchennog y safle fy mod yn bwriadu gwerthu fy nghartref symudol?**

Nac oes. Nid oes rhaid ichi ddweud wrth berchennog y safle eich bod yn ystyried gwerthu eich cartref.

### **A oes angen imi ddefnyddio asiantaeth dai?**

Cewch ddewis defnyddio asiantaeth dai os mynnwch chi. Os ydych chi'n dewis gwneud hynny, cewch ddefnyddio pa bynnag asiantaeth sydd orau gennych.

### **Beth os yw perchennog fy safle yn cynnig gwasanaeth gwerthu, oes rhaid imi ddefnyddio hwnnw?**

Nac oes. Cewch ddewis defnyddio'r gwasanaeth hwn, ond cofiwch y bydd angen i chi dalu ffi o bosibl. Bydd y ffi yn ychwanegol at y comisiwn y bydd perchennog y safle'n ei derbyn ar ôl cwblhau'r gwerthiant.

### **A oes angen imi ddefnyddio cyfreithiwr wrth werthu fy nghartref symudol?**

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor cyfreithiol wrth werthu eich cartref symudol. Mae hyn yn enwedig o bwysig gan fod Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi rhwymedigaethau arnoch i roi gwybodaeth berthnasol benodol i'r prynwr cyn i'r gwerthiant gael ei gwblhau. Os nad ydych yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol fe all eich prynwr ddod ag achos cyfreithiol yn eich erbyn yn y dyfodol.

### **A oes angen cael Tystysgrif Perfformiad Ynni?**

Nac oes. Nid oes angen Tystysgrif Perfformiad Ynni wrth werthu cartref symudol.

### **A fydd angen cynnal arolwg o'r cartref?**

Na fydd. Nid oes rheidrwydd cyfreithiol i gynnal arolwg o'r cartref. Mae'n bosibl y bydd eich prynwr yn gofyn am gael cynnal arolwg. Chi a'r prynwr fydd yn penderfynu sut i drefnu hyn a phwy fydd yn talu amdano.

## Rwyf wedi cael hyd i brynwr – beth nesaf?

### Rwyf wedi cael hyd i brynwr ac rydym ni wedi cytuno ar bris, beth sy'n digwydd nesaf?

Mae angen i chi lenwi'r **Ffurflen Wybodaeth ar gyfer Prynwyr**.

Mae copi o'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://cymru.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?lang=cy> <http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?skip=1&lang=cy%20> neu gofynnwch am gopi gan eich awdurdod lleol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.

### Ffurflen Wybodaeth ar gyfer Prynwyr

Mae'r ffurflen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i'r prynwr ynglŷn â'r gwerthiant a'r safle, ei reolau, y cyfleustodau a'ch cytundeb ar gyfer y llain. Y bwriad yw rhoi'r holl wybodaeth y bydd ar y prynwr ei hangen er mwyn iddo ef neu hi allu gwneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â'r pryniant. Mae'n bwysig dros ben eich bod yn llenwi'r ffurflen hon mor gywir ac onest ag y gallwch oherwydd y gallech fod yn atebol yn y dyfodol os ydych wedi rhoi gwybodaeth anghyflawn neu gamarweiniol.

Mae'r dogfennau y mae'n rhaid i chi eu rhoi i'r prynwr yn cael eu rhestru yn y Ffurflen Wybodaeth ar gyfer Prynwyr.

### Beth os nad yw'r holl waith papur neu wybodaeth gennyf i?

Os nad ydych yn gallu darparu peth o'r wybodaeth neu rai o'r dogfennau y mae'n rhaid eu darparu i'r prynwr, rhaid i chi roi gwybod iddo ef neu hi beth ydyn nhw a pham nad ydych chi'n gallu eu darparu. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yr holl ymholiadau priodol er mwyn cael gafael ar y wybodaeth a'r dogfennau angenrheidiol. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor cyfreithiol wrth werthu cartref symudol er mwyn gallu diogelu'ch hun rhag unrhyw broblemau yn y dyfodol.

## Rwyf wedi llenwi'r ffurflenni a'u rhoi i'r prynwr. Mae'n hapus i fwrw ymlaen â'r broses. Beth nesaf?

Mae'r cam nesaf yn dibynnu ar bryd y cawsoch eich cartref symudol.

- **Os oeddech wedi symud i mewn i'ch cartref cyn 1 Hydref 2014**, mae angen i chi a'ch prynwr lenwi **Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu** a'i rhoi i berchennog y sale.
- **Os oeddech wedi symud i mewn i'ch cartref ar ôl 1 Hydref 2014**, nid oes angen i chi lenwi'r Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu. Eich cam nesaf fydd llenwi'r **Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad**.

## Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu

Mae angen i'ch prynwr gadarnhau ar y ffurflen hon ei fod yn gallu cydymffurfio â rheolau'r safle ynglŷn ag anifeiliaid anwes, parcio a chyfyngiadau oedran.

Mae copi o'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://cymru.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?lang=cy> neu gofynnwch am gopi gan eich awdurdod lleol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.

## Rydym wedi llenwi'r Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu a'i rhoi i berchennog y safle, beth nesaf?

Os oes gan berchennog y safle dystiolaeth nad yw'r prynwr newydd yn bodloni rheolau'r safle, caiff wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am orchymyn gwrthod i atal y gwerthiant. Mae gan berchennog y safle 21 diwrnod i wneud cais ac i roi gwybod i chi ei fod wedi gwneud hynny. Os nad yw'n gwneud hyn, cewch fwrw ymlaen â'r gwerthiant. Os yw perchennog y safle'n gwneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, mae'n bosibl y bydd angen i chi a'r prynwr roi mwy o wybodaeth. Os yw gorchymyn gwrthod yn cael ei ganiatáu, ni all y gwerthiant fynd yn ei flaen a bydd rhaid i chi ddechrau'r broses eto. Os nad yw gorchymyn gwrthod yn cael ei ganiatáu, gallwch fwrw ymlaen gyda'r gwerthiant.

## Cwblhau'r Gwerthiant

### A gawn ni gwblhau'r gwerthiant nawr?

Cewch gwblhau'r gwerthiant os yw'r canlynol yn wir:

- Nid yw perchennog y safle wedi gwrthwynebu'r gwerthiant nac wedi gwneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl o fewn 21 diwrnod, neu
- Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl wedi penderfynu yn eich plaid, neu
- Roeddech wedi prynu eich cartref neu ei dderbyn yn anrheg ar ôl 1 Hydref 2014 ac nid oedd angen i chi lenwi'r Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu.

### Beth sydd angen i mi ei wneud i gwblhau'r gwerthiant?

Er mwyn cwblhau'r gwerthiant mae angen i chi lenwi'r **Ffurflen Aseiniad**.

Mae copi o'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://cymru.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?lang=cy> neu gofynnwch am gopi gan eich awdurdod lleol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.


### Ffurflen Aseiniad

Mae'r ffurflen hon yn trosglwyddo cytundeb y llain i'r prynwr. Hwn yw'r cytundeb rhwng preswylydd ar y safle a perchennog y safle ynglŷn â lleoliad eich cartref symudol ar y safle. Mae'r prynwr newydd yn talu 90% o bris y cartref i chi ac mae ganddo saith diwrnod i roi gwybod i berchennog y safle bod cytundeb y llain wedi cael ei drosglwyddo a'r gwerthiant wedi'i gwblhau, ac i ddangos tystiolaeth ei fod wedi talu, ar y **Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad**.

Mae gan y prynwr newydd saith diwrnod arall wedi hynny i dalu'r comisiwn o 10% i berchennog y safle.



# Gwerthu eich Cartref Symudol



## 2. Rhoi cartref symudol yn anrheg

### A oes gennyf hawl i roi fy nghartref symudol i rywun?

Oes. Os ydych yn berchen ar gartref symudol cewch ei roi i aelod o'ch teulu ac aseinio'r cytundeb iddo ef neu hi. Gelwir hyn yn 'roi yn anrheg'.

**Nid oes gennych hawl i dderbyn unrhyw daliadau ynglŷn â'r anrheg. Nid oes hawl gan berchennog y safle i dderbyn comisiwn nac unrhyw daliadau eraill.**

### Pwy sy'n cyfrif fel aelod o'r teulu?

Yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 diffinnir aelod o'ch teulu fel:

- gŵr neu wraig, partner sifil neu unigolyn sy'n byw gyda chi mewn perthynas deuluol barhaus
- rhieni, tad-cu/teidiau a mam-gu/neiniau, plant ac wyrion ac wyresau (gan gynnwys unrhyw un sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus ac unrhyw un arall sy'n cael ei drin fel plentyn i deulu'r person), a
- brodyr, chwiorydd, ewythrod, modrybedd, neiaint a nithoedd (gan gynnwys unrhyw un sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

### Rwyf wedi penderfynu rhoi fy nghartref yn anrheg i aelod o'r teulu. Beth sy'n digwydd nesaf?

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich perthynas yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau os yw'n cytuno i dderbyn yr anrheg. Bydd arno/arni angen gwybod telerau cytundeb y llain, ffi'r llain ar y pryd, pryd y bydd yn cael ei hadnewyddu nesaf ac unrhyw daliadau eraill fel nwy, trydan, treth gyngor. Bydd arno/arni angen copi o reolau'r safle hefyd a bydd angen gallu cadw atynt, hynny yw o ran oedran, cadw anifeiliaid anwes ac ati.

## **Rwedi rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i fy mherthynas ac mae'n hapus i dderbyn yr anrheg. Beth nesaf?**

Mae'r cam nesaf yn dibynnu ar ba bryd y gwnaethoch chi brynu eich cartref symudol.

**Os oeddech wedi symud i mewn i'ch cartref cyn 1 Hydref 2014** mae angen i chi a'ch perthynas lenwi **Ffurflen o'r Bwriad i Roi'n Anrheg** a'i rhoi i berchennog y safle.

**Os oeddech wedi symud i mewn i'ch cartref ar ôl 1 Hydref 2014 nid** oes rhaid i chi lenwi Ffurflen Bwriad i Roi'n Anrheg. Eich cam nesaf yw llenwi Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad.

Bydd angen i'ch perthynas ddarparu tystiolaeth i berchennog y safle ei bod/fod yn aelod o'ch teulu.

## **Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Roi'n Anrheg**

Ar y ffurflen hon, mae angen i'ch perthynas gadarnhau ei bod/fod yn gallu cydymffurfio â rheolau'r safle ynglŷn â chadw anifeiliaid anwes, parcio a chyfyngiadau oedran a darparu prawf ei bod/fod yn aelod o'ch teulu.

Mae copi o'r ffurflen ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://cymru.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?lang=cy> neu gofynnwch am gopi gan eich awdurdod lleol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.

## **Rydym wedi llenwi'r Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Roi'n Anrheg a'i rhoi i berchennog y safle; beth nesaf?**

Mae gan berchennog y safle 21 diwrnod i benderfynu a yw am wrthwynebu'r anrheg ai peidio. Os nad yw perchennog y safle'n gwrthwynebu, cewch fwrw ymlaen â'r anrheg. Os yw perchennog y safle'n gwrthwynebu'r anrheg, rhaid iddo wneud cais am orchymyn gwrthod i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl a rhoi gwybod yn ysgrifenedig i chi ei fod wedi gwneud y cais. Os yw gorchymyn gwrthod yn cael ei ganiatáu, ni all yr anrheg ddigwydd. Os nad yw gorchymyn gwrthod yn cael ei ganiatáu, gallwch fwrw ymlaen â'r anrheg.

## Pa dystiolaeth o berthynas deuluol sydd angen imi ei darparu?

- Datganiad ysgrifenedig tan lw yn esbonio'ch perthynas
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu
- Tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil

## Llofnodi i drosglwyddo'ch cartref i'ch perthynas

### A gaf i lofnodi i drosglwyddo fy nghartref i fy mherthynas nawr?

Cewch gwblhau'r anrheg os yw'r canlynol yn wir:

- Nid yw perchennog y safle wedi gwrthwynebu'r anrheg na gwneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl o fewn 21 diwrnod, neu  
Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl wedi penderfynu yn eich plaid, neu
- Roeddech wedi symud i mewn i'ch cartref ar ôl 1 Hydref 2014 ac nid oedd angen i chi lenwi'r Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Roi Anrheg.

### Sut rwyf fi'n llofnodi i drosglwyddo'r cytundeb i fy mherthynas?

Bydd angen i chi drosglwyddo cytundeb y llain i'ch perthynas – yr enw am hyn yw aseiniad. Bydd angen i'r ddau ohonoch lenwi'r **Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad** a chynnwys y wybodaeth a dogfennau perthnasol a restrir ynddi. Pan fyddwch yn cwblhau'r ffurflen aseiniad, mae perchnogaeth eich cartref yn cael ei throsglwyddo i'ch perthynas ac mae ef neu hi yn gyfrifol am gytundeb y llain a'r ymrwymadau eraill.

O fewn saith diwrnod i'r aseiniad, rhaid i'ch perthynas anfon y **Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad** at berchennog y safle ynghyd â'r dogfennau perthnasol.

# Rhoi eich Cartref Symudol yn Anrheg

Rhoi Eich Cartref Symudol I'ch Perthynas

Rhoi'r Holl Wybodaeth Berthnasol I'ch Perthynas Gan Gynnwys Ffioedd Lleiniau A Rheolau'r Safle.

Os Oeddech Wedi Symud I Mewn I'ch Cartref Cyn 1 Hydref 2014

Os Oeddech Wedi Symud I Mewn I'ch Cartref Ar Ôl 1 Hydref 2014

Llenwch Y **Ffurflen Hysbysiad O'r Bwriad I Roi Anrheg** A'i Rhoi I Berchennog Y Safle

Os Yw Perchennog Y Safle'n Gwrthwynebu'r Anrheg Ac Yn Gwneud Cais I'r Tribiwnlys O Fewn 21 Diwrnod

Os Nad Yw Perchennog Y Safle'n Gwrthwynebu'r Anrheg

Mae'r Tribiwnlys Yn Caniatáu'r Gorchymyn Gwrthod

Mae'r Tribiwnlys Yn Penderfynu O'ch Plaid Chi

Llenwch Y **Ffurflen Aseiniad** A Chwblhau'r Anrheg

**Ni** Allwch Gwblhau'r Anrheg

**Gallwch** Gwblhau'r Anrheg

Cofiwch – Nid Oes Modd I Chi Gael Arian Am Yr Anrheg Ac Nid Oes Hawl Gan Berchennog Y Safle I Gael Comisiwn

### 3. Gwerthu cartref symudol ar ôl arwolaeth y perchennog

#### Beth sy'n digwydd os wyf yn etifeddu cartref symudol?

Pan mae perchennog cartref yn marw a'i fod yn byw yn y cartref symudol ar y pryd, bydd y cytundeb ysgrifenedig yn cael ei drosglwyddo i'r gŵr neu wraig neu bartner sifil ar yr amod ei fod ef neu hi yn byw gyda pherchennog y cartref parc pan fu farw.

Os nad oes gŵr na gwraig na phartner sifil yn byw gyda'r person, byddai'r eiddo'n cael ei drosglwyddo i unrhyw aelod arall o'r teulu a oedd yn byw gyda'r person pan fu farw.

Fodd bynnag, os ydych wedi etifeddu cartref symudol ac nad ydych yn byw yno, rydych yn gyfrifol am ffioedd y llain a thaliadau eraill nes ichi werthu'r eiddo.

Ni chewch symud i mewn iddo heb ganiatâd perchennog y safle, na'i rentu na'i roi yn anrheg i berthynas. Bydd yn rhaid i chi gadw at reolau'r safle o ran oedran, cadw anifeiliaid anwes ac ati i gael byw yn y cartref.

Cewch werthu'r cartref ar y farchnad agored. Nid oes angen caniatâd perchennog y safle arnoch chi i werthu'r cartref na gofyn iddo gymeradwyo'r prynwr.

Er mwyn gwerthu cartref symudol yr ydych wedi'i etifeddu, dilynwch y camau ar gyfer gwerthu cartref symudol yn y llyfryn hwn.

Dilynwch y cyfarwyddyd yn dibynnu ar ba un a oedd y sawl yr ydych wedi etifeddu'r cartref ganddo wedi dod yn berchennog ar yr eiddo cyn neu ar ôl 1 Hydref 2014.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r holl ffurflenni y cyfeiriwyd atynt yn y daflen wybodaeth hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ac mae modd eu lawrlwytho i'w hargraffu -

<http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/legislation/mobile-homes-act/?skip=1&lang=cy> :

- Ffurflen Wybodaeth ar gyfer Prynwyr
- Ffurflen Hysbysiad o'r Bwriad i Werthu
- Hysbysiad o'r Bwriad i Roi'n Anrheg
- Ffurflen Aseiniad
- Ffurflen Hysbysiad o Aseiniad